## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## DADANSODDIAD YSTADEGOL O GYLLIDEBAU'R AWDURDODAU LLEOL AR GYFER GWASANAETHAU YSGOL YNG NGHYMRU 2001-02

### Diben

1. Darparu dadansoddiad o gyllidebau i ysgolion a bennir gan yr awdurdodau addysg lleol ar gyfer 2001-02, gan gynnwys gwybodaeth gymharol ar gyfer Lloegr.

### Crynodeb

2. Y pwyntiau allweddol i'w nodi o'r dadansoddiad hwn yw:

- Y gwariant cyfartalog a gyllidebir i bob disgybl yng Nghymru yn 2001-02 oedd £3,134 o'i gymharu â £2,850 yn y flwyddyn flaenorol (tabl 1 a siart 1);
- Yr oedd yn amrywio o £2,833 ym Mro Morgannwg i £3,766 yng Ngheredigion (tabl 1);
- Y gyllideb gyffredinol i bob disgybl ar gyfer Lloegr oedd £3,177; £3,095 heb gynnwys Llundain (tabl 2);
- Maint ysgol yng Nghymru ar gyfartaledd yw 252 o ddisgyblion o'i gymharu â 327 o ddisgyblion yn Lloegr, mae cymarebau disgybl/athro ychydig yn is yng Nghymru nag yn Lloegr (tabl 4);
- Mae cymariaethau traws-ffiniol yn dangos cyllidebau i bob disgybl sy'n is yng Ngogledd Ddwyrain Cymru na'r awdurdodau cyffiniol yn Lloegr, ond yn uwch yng Nghanolbarth Cymru ac yn Ne Ddwyrain Cymru (tabl 6);
- Ers 1990-91, mae gwariant (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer plant o dan bump oed) i bob disgybl wedi cynyddu 23% mewn termau real o'i gymharu â 24% yn Lloegr (tabl 5 a siart 3);

### Cyflwyniad

3. Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r adnoddau y mae'r awdurdodau lleol wedi cyllidebau iddynt fod ar gael ar gyfer gwasanaethau ysgol yn 2001-02. Mae'r papur yn gwneud cymariaethau rhwng awdurdodau addysg lleol Cymru a rhwng cyfartaledd Cymru a'r cyfartaleddau rhanbarthol yn Lloegr. Rhoddir ystyriaeth yn fyr hefyd i'r duedd hanesyddol.

### Ffynonellau Data

4. Prif ffynhonnell y wybodaeth ariannol ar gyfer 2001-02 yw'r ffurflenni cyllideb a wneir gan yr awdurdodau addysg lleol o dan Adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (ffurflenni adran 52). Mae fformat a chwmpas y ffurflen hon yn debyg yng Nghymru a Lloegr. Mae yna wahaniaethau yn y manylion.

5. Mae'r ffurflen hon yn rhoi manylion sylfaenol cyllideb addysg pob awdurdod lleol. Y prif gydrannau yw'r cyllidebau a ddirprwyir i ysgolion unigol; dadansoddiad o'r ariannu ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gyfer ysgolion nad ydynt yn cael eu dirprwyo; cyfanswm y gyllideb ar gyfer gwasanaethau ysgol; a'r gyllideb ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgolion.

6. Codir niferoedd ysgolion, disgyblion, athrawon a phrydau ysgol am ddim o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol. Mae ffurflenni'r cyfrifiad a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr yn debyg, ond mae yna wahaniaethau yn y manylion.

**Disgrifiad o'r dadansoddiad o gyllidebau 2001-02**

7. Ceir dwy ran i'r dadansoddiad o gyllidebau 2001-02:

   - Awdurdodau addysg unigol yng Nghymru (tabl 1 a siart 1).

   - Cyfartaledd Cymru a chyfartaleddau rhanbarthau Lloegr (tabl 2 a siart 2).

3. Mae'r rhanbarthau yn Lloegr a ddefnyddir ar gyfer y gymhariaeth yn is-adrannau o'r naw rhanbarth safonol. At ddibenion y gwaith hwn, mae Llundain wedi'i rhannu i ddangos canol Llundain a chyrion Llundain ar wahân. Mae rhanbarthau eraill wedi'u rhannu yn gydrannau metropolitanaidd a heb fod yn fetropolitanaidd. Felly rhennir rhanbarth y Gogledd Orllewin yn ardal fetropolitanaidd – Lerpwl a Manceinion a'r ardal heb fod yn fetropolitanaidd – Cumbria, Sir Gaerhirfryn, Swydd Gaerlleon etc.

4. Ar gyfer y gwahanol ardaloedd, mae tablau 1 a 2 yn dangos yr un newidynnau. Mae'r tablau'n dangos y wybodaeth ganlynol:

- Cyllideb gyffredinol i bob disgybl. Mae hyn yn dangos y gyllideb ar gyfer yr holl wasanaethau ysgol. Mae'n cynnwys ariannu ar gyfer y gwasanaethau hynny a ddirprwyir i ysgolion ac ar gyfer y rhai a ddarperir yn ganolog gan yr AALl. Mae'n cynnwys ariannu o grantiau penodol y llywodraeth (megis GCAH a'r Gronfa Safonau).

- Cyllideb ddirprwyedig i bob disgybl. Mae hyn yn dangos y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion unigol. Mae'r ffigurau yn net o grantiau penodol gan fod cyllidebau dirprwyedig yng Nghymru yn cael eu cofnodi yn net o unrhyw grantiau penodol. Er hynny, gan fod y strwythur ariannu yn Lloegr yn golygu bod mwy o'r arian dirprwyedig ar ffyrdd grantiau penodol a llai drwy ddyrannu'r gyllideb, mae'n ymddangos bod AALl yng Nghymru yn dirprwyo cyfran uwch o'u cyllideb gyffredinol ysgolion na'u cymheiriaid yn Lloegr. Esbonnir hyn yn fanylach yn yr atodiad technegol.

- Cyllideb yr awdurdod i bob person, sef y gyllideb gyffredinol i bob person ar gyfer holl wasanaethau'r awdurdod lleol. Er mwyn gwneud cymhariaeth ddilys rhwng Cymru a Lloegr, mae addasiadau wedi'u gwneud i ffigurau Lloegr er mwyn cwmpasu ystod debyg o swyddogaethau â'r awdurdodau unedol yng Nghymru. Disgrifir hyn yn yr atodiad technegol

10. Dangosir y newidynnau hyn fel swm ac fel gwahaniaeth i gyfartaledd Cymru. Nodwch mai cymhariaeth â chyfartaledd Cymru yw'r gymhariaeth yn nhabl 2 bob amser.

11. Mae siartiau 1 a 2 yn crynhoi'r gyllideb gyffredinol i bob disgybl yng Nghymru ac ar gyfer Cymru a rhanbarthau Lloegr. Mae'r llinell solet ar bob siart yn cynrychioli cyfartaledd Cymru.

**Disgrifiad o'r data cefndir**

12. Mae tabl 3 yn edrych ar nodweddion AALl yng Nghymru. Mae tabl 4 yn dangos gwybodaeth debyg o safbwynt y cyfartaleddau ar gyfer Cymru a rhanbarthau Lloegr. Mae'r wybodaeth hon yn dangos y gwahaniaethau rhwng y gwahanol ardaloedd ac yn helpu i esbonio'r gwahaniaethau yn y data ar gyllidebau.

13. Ffynhonnell y wybodaeth yw'r cyfrifiad ysgolion blynyddol, a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r data a gyflwynir yma yn dod o gyfrifiad Ionawr 2001 ac mae'n ymwneud felly â'r flwyddyn academaidd 2000-01. Nid yw hyn yn cydweddu â data'r gyllideb, a seilir ar y flwyddyn ariannol 2001-02. At ddibenion y papur mae'n rhesymol rhagdybio bod y ddwy set o ddata'n gyson ar lefel y manylder sy'n cael ei ystyried.

14. Cyflwynir y newidynnau canlynol.

- Nifer o AALl yn yr ardal (tabl 4 yn unig).

- Niferoedd y disgyblion sy'n cyfateb ag amser llawn. Y cyfanswm ar gyfer ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig. Cynhwysir dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd. Ni chynhwysir unedau cyfeirio disgyblion.

- Cymhareb disgybl athro. Cyfanswm y disgyblion sy'n cyfateb ag amser llawn wedi'u rhannu â chyfanswm yr athrawon amser-llawn cyfatebol ar gyfer ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig. Cynhwysir dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd. Ni chynhwysir unedau cyfeirio disgyblion.

- Cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ar gyfer ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd ac arbennig. Cynhwysir dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd. Ni chynhwysir unedau cyfeirio disgyblion. Cynhwysir y newidyn hwn fel dirprwy ar gyfer lefel yr amddifadedd.

**Tuedd hanesyddol yn y gwariant ar wasanaethau**

15. Mae tabl 5 yn dangos y tueddiadau yn y gwariant ar wasanaethau ysgol, niferoedd y disgyblion a'r gwariant i bob disgybl o 1990-91 i 2001-02. Seilir y ffigurau ar wariant alldro terfynol ac eithrio ar gyfer 2002-01 a 2001-02 lle defnyddiwyd cyllidebau. Er mwyn cael rhediad cyson o ffigurau noder bod y wybodaeth am y cyllidebau wedi'i chymryd o ffurflenni cyllideb y Cyfrif Refeniw (RA) yn hytrach na ffurflenni Adran 52. Mae hyn yn arwain at fân

wahaniaeth rhwng y ffigurau yn nhabl 5 a’r rhai yn nhabl 2.

16. Yn ystod y cyfnod hwn cafwyd sawl newid mewn swyddogaeth. Nid oes modd bob amser addasu’r ffigurau yn briodol er mwyn cymryd y newidiadau hyn i ystyriaeth. Y prif newidiadau y dylid bod yn ymwybodol ohonynt yw:

- Ysgolion a Gynhelir â Grant. Fe’u cyflwynwyd yn 1990-91 ac fe’u dychwelwyd i arian yr awdurdodau lleol ym mis Ebrill 1999. Mae’r gwariant yn cynnwys y symiau a dynnwyd o gronfeydd yr awdurdodau lleol i dalu am ysgolion a gynhelir â grant.

- Tynnu addysg bellach ac uwch o reolaeth AALl. Digwyddodd hyn yn 1992-93 a 1993-94. Y brif effaith ar ariannu ysgolion oedd dileu colegau chweched dosbarth. Dim ond dau goleg yng Nghymru oedd yn rhan o hynny, ond yr oedd yr effaith yn fwy na Lloegr. Nid ymdrechwyd i addasu’r ffigurau ar gyfer y newid hwn.

- Y cCynllun talebau meithrin. Mae’r ffigurau ar gyfer 1997-98 wedi’u tan-ddatgan oherwydd y cynllun. Mae addasiadau ar gael ar gyfer Cymru. Nid oes set gyson o addasiadau ar gyfer Lloegr ar gael. Felly, ni wnaed addasiadau i’r ffigurau yn y tabl.

**Cymhariaeth rhwng awdurdodau ar ffin Cymru-Lloegr**

15. Mae’r wybodaeth yn nhabl 6 o dablau mewn man arall yn yr adroddiad ar gyfer yr awdurdodau ar hyd y ffin. Mae’r tabl yn cynnwys gwybodaeth am gyllidebau 2001-02 a’r ystadegau cefndir.

16. Mae tabl 7 yn darparu dadansoddiad o wariant ysgolion rhwng gwariant dirprwyedig ac elfennau o wariant canolog ar gyfer awdurdodau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a Swydd Gaerlleon. Mae hyn yn caniatáu cymharu’r elfennau o wariant dros y ffin. Mae’n tanlinellu’r gwahanol batrymau gwario rhwng Swydd Gaerlleon ac awdurdodau gogledd-ddwyrain Cymru.

**Gwybodaeth bellach**

17. Mae’r wybodaeth a gyflwynir yn y papur hwn yn tynnu ar gorff mawr o wybodaeth a ddelir gan y Cynulliad Cenedlaethol am wariant ar ysgolion a gweithgarwch yn yr ysgolion. Mae dadansoddiadau manylach ar gael trwy wneud cais.

18. Y ffynonellau cyhoeddedig swyddogol yw’r canlynol:

- Ystadegau Ariannol Llywodraeth Leol yng Nghymru, 2000

- Ysgolion yng Nghymru: Ystadegau Cyffredinol 2001

15. Mae cyhoeddiadau ystadegol diweddar y Cynulliad Cenedlaethol ar gael ar wefan y Cynulliad. Gellir dod o hyd i’r rhain yn

http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/index.htm

16. Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol sy'n dal y wybodaeth a gesglir yn ganolog. Gellir cael manylion pa ddata sydd ar gael oddi wrth:


Rob Hay

Ystadegydd Cyllid Llywodraeth Lleol

Ffôn 029 2082 3963

Ffacs 029 2082 5350

E-bost – Stats Finance@wales.gov.uk


**Dadansoddiad o gyllidebau'r awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau ysgol, 2000-01**

**Siartiau a thablau**


| | |
|---|---|
| Tabl 1 | Cyllidebau'r awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau yng Nghymru 2000-01 |
| Tabl 2 | Cyllidebau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau ysgol yng Nghymru a Lloegr, 2000-01 |
| Tabl 3 | Gwybodaeth gefndir ar gyfer awdurdodau addysg lleol Cymru, Ionawr 2000 |
| Tabl 4 | Gwybodaeth gefndir ar gyfer Cymru a rhanbarthau Lloegr, Ionawr 2000 |
| Tabl 5 | Gwasanaethau ysgol yng Nghymru a Lloegr o 1990-91 i 2000-01 |
| Tabl 6 | Cymhariaeth ar hyd ffin Cymru-Lloegr, 2000-01 |
| Tabl 7 | Dadansoddiad o S52 rhan 1 ar gyfer alldro 1999-2000 yn Swydd Gaerlleon a Gogledd Ddwyrain Cymru. |

| | |
|---|---|
| Siart 1 | Cyllideb yr awdurdod lleol i bob disgybl yng Nghymru, 2000-01 |
| Siart 2 | Cyllideb gyfartalog ranbarthol i bob disgybl yng Nghymru a Lloegr, 2000-01 |
| Siart 3 | Tuedd hanesyddol yn y gwariant i bob disgybl yng Nghymru a Lloegr |



Uned Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2001